

CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn / Issue 14 Ionawr / Jan 2025



Gair gan y Cadeirydd

Croeso i rifyn y gaeaf hwn o'r Cylchlythyr. Gyda 2025 ar y gorwel, mae'n bryd edrych ar yr hyn sydd ar agenda'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Goryrru a goleuadau ffordd annigonol

Mae'r broblem o gerbydau'n goryrru drwy'r pentref yn barhaus ac mae'r rhan o'r B5429 o'r Ardd Lechi i Faes Derwyn hefyd â goleuadau stryd gwael. Mae CSDd yn gwrthod derbyn bod problem o ran diogelwch cerddwyr, felly rydym yn ymdrechu i gasglu data trwy logi Cofiadur Stripiau i nodi mathau a chyflymder cerbydau, i'w ddefnyddio yn y manau lle rydym eisoes wedi gosod arwyddion 20mya. Gyda'r data hwn gallwn gysylltu â CSDd ynghylch gosod mesurau tawelu traffig.

Llwybr yn arwain i'r pwll uwchben Neuadd Llanbedr

Yn ystod cyfnodau gwlyb mae'r llwybr hwn yn anodd iawn i'w gerdded, yn enwedig gyda phlant ifanc, mewn dau le'n benodol. Mae'r Cyngor Cymuned ynghyd â Choed Cadw a'r AHNE yn edrych ar ffyrdd o ddatrys y broblem hon.



From the Chair

Welcome to this winter edition of the Newsletter. As 2025 begins, it's time to look at what the Community Council has on the agenda for the year ahead.

Speeding and Inadequate lighting

There is a perennial problem of speeding vehicles through the village plus the section of the B5429 from the Slate Garden to Maes Derwyn, also has poor street lighting. DCC refuses to accept there is a problem for pedestrian safety, so we are endeavouring to collect data by hiring an Airstrip Recorder to identify vehicle types and speeds, to be used where we have already installed 20mph signs. Armed with this data we can approach DCC about installing some traffic calming measures.

Footpath leading to Pond above Llanbedr Hall

During wet periods this footpath is very difficult to walk, especially with young children, in two places. The Community Council together with the Woodland Trust and the AONB are looking at ways to solve this problem

Plant Exchange Group

Karen Parkinson has set up a group interested in a Community Plant Swap. The Community Council is committed to supporting them any way they can. If interested, please contact Karen. Email. karensheena@btinternet.com.

Grŵp Cyfnewid Planhigion

Mae Karen Parkinson wedi sefydlu grŵp sydd â diddordeb mewn Cyfnewid Planhigion o fewn y Gymuned. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i'w cefnogi unrhyw ffordd y gallant. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Karen. E-bost karensheena@btinternet.com.

Grŵp Garddio sy'n Gyfeillgar i Fywyd Gwylt

Gweler tudalen 14 am ragor o wybodaeth.

Prosiect Blodau Gwylt

Mae'r Cyngor wedi derbyn rhodd fawr o Hadau Blodau Gwylt. Y cynllun yw plannu sribed gyferbyn â'r Hen Efail.

Digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pob grŵp oedran trwy gydol y flwyddyn

Mae'r Pwyllgor Cymdeithasol wedi dechrau cynllunio digwyddiadau ar gyfer eleni. Ceir gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd i ddod ar dudalen gefn y cylchlythyr.

Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw un o'r prosiectau a grybwyllwyd neu os oes gennych awgrymiadau ar gyfer prosiectau yr hoffech iddynt gael eu hystyried, cysylltwch â mi drwy'r e-bost isod.

Lyn Evans

E-bost: lynevans41@yahoo.com

Wildlife Friendly Gardening Group

See Page 14 for more information.

Wildflower Project

The Council has received a large donation of Wildflower Seeds. The plan is to plant a strip opposite The Old Smithy.

Social events for all age groups throughout the year

The Social Committee has begun planning events for this year. Information on upcoming events can be found on the back page of the newsletter.

If you would like to get involved with any of the projects mentioned or have suggestions for projects you would like to be considered, please contact me through the email below.

Lyn Evans

Email: lynevans41@yahoo.com



Y Newyddion Diweddaraf o Lanbedr DC

Tîm Cyngrhair Haf Llangynhafal

Mae Llanbedr DC yn falch o gefnogi Tîm Cyngrhair Haf Llangynhafal. Ar ôl tymor aflwyddiannus iawn y llynedd, bu'r tîm, gan gynnwys 10 o chwaraewyr o Lanbedr, yn llwyddiannus iawn yn nhymor 2024 gyda'r tîm yn gorffen yn ail.

Allan o 22 gêm a chwaraewyd, Ennill 17, Cyfartal 2, Colli 3. Pob lwc ar gyfer 2025.



Uwchraddio Offer Karate

Yn dilyn prynu offer cystadlu newydd (a noddir gan Lanbedr DC), mae Karate JKS Llanbedr DC wedi mynychu nifer o gystadlaethau cenedlaethol. O blith 16 o gystadleuwyr, y rhan fwyaf yn cystadlu am y tro cyntaf, enillodd y clwb 9 medal sy'n eithriadol ar gyfer cystadleuaeth datblygu cenedlaethol. Yn y flwyddyn newydd rydym yn gobeithio cynnal cystadleuaeth lefel clwb yn Dojo Llanbedr DC i ganiatáu i bob myfyriwr gael defnyddio'r un offer.

Llanbedr DC News Updates

Llangynhafel Summer League Team

Llanbedr DC are proud to support Llangynhafal Summer League Team. The team, including 10 Llanbedr players, were very successful in this 2024 season with the team finishing second after a very unsuccessful season the previous year.

Out of 22 games played, Won 17, Drew 2, Lost 3. Good luck for 2025.

Rhodd Marjorie Stoddart

Yn anffodus bu farw Marjorie Stoddart, o Faes Celyn, yn gynharach eleni. Gan ei bod wrth ei bodd yn garddio, rhoddodd ei theulu £500 o'i chasgliad angladd i'r Cyngor Cymuned i'w ddefnyddio i ddatblygu Mannau Gwyrdd o amgylch y pentref. Bydd llwyn Magnolia, hoff blanhigyn Majorie, a llwyn Clematis (o'r enw Marjorie) yn cael eu plannu yn yr Ardd Lechi o dan ei chyn gartref. Bydd y gweddill yn cael ei wario ar hadau ar gyfer Man Gwyrdd dŵl blodau gwyllt Maes Derwyn.


Arddangosfa Tân Gwyllt Llanbedr

Roedd nos Wener 1af o Dachwedd yn noson fendigedig! Daeth tua 200 o bobl draw i arddangosfa Tân Gwyllt Llanbedr, ym Mynwent Hen Eglwys San Pedr, gyda'r Tân Gwyllt yn cael ei ddarparu gan Gyngor Cymuned Llanbedr. Mae'r digwyddiad yn cynyddu mewn poblogrwydd bob blwyddyn!



Marjorie Stoddart Donation

Marjorie Stoddart, of Maes Celyn, sadly died earlier this year. As she loved gardening, her family donated £500 from her funeral collection to the Community Council to use in Green Space developments around the village. A Magnolia bush, Majorie's favourite plant, and a Clematis bush (called Marjorie) will be planted in the Slate Garden below her former home. The balance will be spent on seeds for the Maes Derwyn wildflower meadow Green Space.



Llanbedr Fireworks Display

It was a wonderful night on Friday 1st November. Around 200 people attended the Llanbedr Fireworks display, set up in Old St Peters Churchyard, with the Fireworks provided by Llanbedr Community Council. The event just grows in popularity each year!

Felly... fydd yma Barc Cenedlaethol ai peidio?

Ers blynnyddoedd lawer mae Ward Llanbedr wedi bod ar gyrion Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – a elwir bellach yn ‘Dirwedd Naturiol’ – ond gydag ystyriaeth erbyn hyn o’i hailddosbarthu fel Parc Cenedlaethol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru newydd gwblhau ail gyfnod ymgynghori ar 16 Rhagfyr, gan gynnal nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Roedd nifer o bwyntiau i bawb eu hystyried cyn penderfynu a oeddent o blaid neu yn erbyn y cynnig, megis:

- Faint o ymwelwyr all yr ardal eu cynnal yn gyfforddus / Faint yn fwy o swyddi fydd yn dod i’r ardal, gan wella’r galw am economïau lleol sy’n tyfu.
- Ariennir ein ‘Tirwedd Naturiol’ gan 3 chynghor lleol – Mae pob un yn gorfod gwneud toriadau, a fydd yn effeithio ar gyllid cefn gwlad / Bydd ymwelwyr â’r ardal yn gorfod talu am barcio ac ati a fydd yn ariannu wardeniaid, cynnal a chadw a gwaith arloesi.
- Mewn Parciau Cenedlaethol eraill mae bioamrywiaeth effeithiol yn bryder gwirioneddol, er y gallai strwythur newydd wedi’i wreiddio mewn amrywiaeth fod yn amhrisiadwy.

Are we going to become a National park or not?

For many years the Ward of Llanbedr has been on the fringe of the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Beauty – now known as a ‘Natural Landscape’ but it now faces consideration of being reclassified as a National Park.

National Resources Wales have just completed a second consultation period on the 16th December, running numerous events, both face to face and online.

There were numerous points for everyone to consider before making a decision as to whether or not they were for or against the proposal, which included:

- How many visitors could the area comfortably maintain / How many more jobs would it bring to the area, improving demand for growing local economies?
- Our ‘Natural Landscape’ is funded by 3 local councils – All are making cuts, which will affect countryside funding / Visitors to the area would have to pay for parking etc to assist with funding wardens, maintenance & innovation.
- Effective biodiversity in other National Parks is a real concern, although a new structure that put diversity at its heart could prove invaluable.

- Bydd miloedd o bobl yn sathru’r tir ac yn amharchu’r amgylchedd / Bydd addysg briodol a lledaenu gair y Côt Cefn Gwlad yn hollbwysig os yw mwy o bobl i werthfawrogi a pharchu cefn gwlad.

Gobeithio eich bod wedi cymryd rhan yn y broses, ond rŵan rhaid aros i weld beth fydd y penderfyniad, - a fydd Llanbedr yn dod yn rhan o Barc Cenedlaethol newydd ai peidio?

- Thousands more people could trample the land and disrespect the environment / Appropriate education and spreading the word of the Country Code will be paramount if more people are to appreciate and value the countryside.

Hopefully you engaged with the process, but now we just have to wait and see what decision will be made, as to whether Llanbedr becomes part of a new National park or not?



Enillydd Yr Ardd Bywyd Gwyllt Fechan 2024

Dwi'n ymddiheuro fod hon yn stori eithaf hir ond rydym ni'n meddwl y bydd o'n gardd. Ein gardd ni ydi hi'n bennaf, ond rydym wedi ceisio gwneud popeth y gallem ar gyfer y creaduriaid yn ogystal â ni.

Mae yma storfeydd ar gyfer sychu a chadw boncyffion sy'n rhoi cysgod a lloches wych i chwilog a phryfed cop. Pan oedd siglen fraith yn nythu yn un ohonyn nhw, roedd yn rhaid rhoi grid dros y gasgen ddŵr rhag ofn i un o'r cywion benderfynu mynd i nofio, yn ogystal â chansenni bambŵ ar gyfer unrhyw lygod fyddai'n ceisio gwneud 'run fath!

Mae draenog sy'n ymweld â ni yn ystod y nos yn defnyddio'r storfa goed arall fel gwely dydd. Nid yw'n byw yma ond mae'n dod draw i fwydo tua 11 yr hwyr. Pan mae draenogod yn magu, mae'r fam yn mynd allan yn ystod y dydd pan fydd y babanod yn cysgu i fwydo ei hunain. Daethom o hyd i'r draenog o dan y storfa yn cysgu un noson a chyn gynted ag yr oedd hi'n nosi fe saethodd allan, yn ôl i ble bynnag y dylai fod, fel petasai'n hwyr i fynd i rywle ar ôl gorgysgu! Pan wnaethom ni osod y ffens newydd, fe adawon ni fwlch ar y pen wedi'i guddio gan linell y clawdd fel bod y draenog yn dal i allu mynd a dod. Mae tyllau bach mewn ffensys yn helpu draenogod i deithio a bwydo. Ar gyfer y draenog mae'r baddon adar isel hefyd.

Rydym yn trio tyfu llawer o flodau cymysg ar gyfer paill a neithdar, a

Winner of The Small Wildlife Garden 2024

I'm sorry it's quite a long story but we love our garden, mostly it's just our garden but we've tried to make it all for the creatures as well as for us.

We have log stores to dry logs which provides great shelter and shade for bugs and spiders. When a pied wagtail nested in the one we had to put a grid over the water butt to stop any swimming fledgelings, as well as bamboo cane for the swimming mice!

Another log store is sometimes used as a stop over daybed for our visiting hedgehog, it doesn't live here but comes to feed around 11pm. When they have young mother hedgehogs go out in the day when the babies are asleep to feed themselves. We found it under there sleeping one evening and as soon as it was dusk it shot out and back to wherever it should have been, like it had overslept and was late! When we installed our new fence, we left a gap at the end hidden by the hedge line so the hedgehog could still come and go. Small holes in fences help hedgehogs travel and feed. Our low birdbath is for the hedgehog too.



Rydym yn trio tyfu llawer o flodau cymysg ar gyfer paill a neithdar, a phlanhigion adeileddol i greaduriaid ymgartrefu ynddynt. Pan fydd planhigyn wedi gorffen blodeuo ni fyddwn yn ei dorri i lawr os gellir ei ddefnyddio fel cartref neu os gall adar fwyta'r hadau.

Gyda'r nos mae yma hefyd neithdar ar gyfer porthwyr y nos a blodau gwyn ac arogl arnynt ar gyfer gwyfynod a phryfed. Rydyn wedi gosod golau ysgafn mewn mannau ac mae ambell i ystlum yn hedfan o gwmpas gyda'r nos hefyd. Fin nos yn ystod yr haf mae'n union fel petai prysurdeb y Gwenoliaid yn gorffen a'r ystlumod yn deffro i gymryd eu lle.

Ar y wal ym mhen y decin mae yna dŷ ar gyfer y gwenyn, a fu'n boblogaidd iawn eleni. Rydym wedi defnyddio paent glas gerllaw gan fod y lliw yn denu gwenyn mae'n debyg. Roedd yna hefyd nyth cacwn yn y bric awyr wrth y drws cefn, yn ogystal â gwenyn unigol yn nythu o dan y decin. Bu'r gwenyn torrwr dail yn brysur yn dodwy wyau'r haf hwn: eu gwaith nhw ydi'r rhiciau siâp 'c' yn y rhosod a'r dail mefus gwyllt ger y pwll. Mae'r gwenyn meirch yn hoffi yfed o'r pwll bach ac yn crafu paent oddi ar y decin i gyrraedd y coed i wneud nyth.

Does ganddom ni ddim porthwyr adar yma, a dim ond un tŷ adar (i'r titw tomos las gysgodi yn ystod y gaeaf) yn ein collen ddirdro. Mae hyn yn fwiadol gan fod y cathod lleol yn helwyr penigamp! Mae'n well gennym greu gardd gyda bwyd a chysgod naturiol i'r adar ddewis byw yma os ydynt yn dymuno, ac ni fyddem felly'n teimlo'n or gyfrifol am adar yn troi'n ysglyfaeth! Mae'n edrych fel tasa hyn yn gweithio'n dda hyd yma gan fod

We try to have lots of mixed flowers for pollen and nectar and structural plants for creatures to make homes in. When somethings finished flowering we for creatures to make homes in. When somethings finished flowering we won't chop it down if it can be used, as a home or can provide seed for birds. We also have nectar for night time feeders, we have white flowers and evening scent for the moths and insects, we've put gentle lighting in places and have a few bats swoop in at evening light. In summer it seems the Swallows finish in the evening and the bats wake up and take their place.



There's a beehouse on the wall at the end of the decking which has been well used this year, we've used blue paint nearby as the colour attracts bees apparently. We also had a bumblebee nest in the airbrick by the backdoor, as well as solitary bees nesting under the decking. Leaf cutter bees were busy laying eggs this summer and the c shaped notches in the roses and wild strawberry leaves by the pond are their work. The wasps like a drink from the little pond and scrape paint off the decking to access the wood to make their nests.

yma lawer o ymwelwyr, Robin, y fronfraith, titw tomos las, colomennod, dryw, siglen fraith, drudwy, adar y to yn ogystal â'r fwyalchen yn nythu yn y llawryf siâp pelen ym mhen draw'r ardd. Ond, pan ddaw tywydd garw yn ystod y gaeaf rydym yn rhoi bwyd allan yn y llain llysiau, - cyrens a hadau blodau'r haul yw'r ffefrynnau bob amser.

Rydym yn trio cadw'r glaswellt yn weddol fyr fel bod yr adar yn cael llonydd i ddod o hyd i fwydod ac i'r siglen fraith hela am bryfed, ond ddim yn rhy fyr. Rydym o'r farn bod ein cymysgedd o blanhigion blodeuol yn esgus da rhag torri'r glaswellt ym mis Mai ac am fod yn gall weddill y flwyddyn heb ei dorri i'r gwraidd.

Mae'r llain llysiau ym mhen draw'r ardd yn gynefin gwych hefyd. Mae yna aeron a chyrens ar gyfer bwyd yn yr hydref ac mae'r domen gompost yn y sied yn llawn creaduriaid, ac rydym yn rhoi ffon mewn unrhyw fwcad bob amser er mwyn i greaduriaid gael dianc. Rydym yn gadael i'r asbaragws ger y goeden afalau redeg bob amser oherwydd pan fydd yn blodeuo mae'r gwenyn wrth eu bodd ac yn y gaeaf mae'r pryfed cop yn ei ddefnyddio.

Nid ydym yn defnyddio unrhyw gemegau yn yr ardd ac rydym yn defnyddio porthiant gwymon i fwydo.

Felly, dyna chi ein gardd ni. Gobeithio y byddwch yn ei hoffi cymaint â ni.

Mair ac Ian



We intentionally don't have any bird feeders and just one birdhouse (winter shelter for the blue tits) in our twisted hazel as we have very good hunter cats living around us! We feel better creating a garden with natural food and shelter for the birds to choose to live here if they wanted and wouldn't feel too responsible for birds becoming prey! It seems to work well, there are lots of visitors, Robin, thrush, blue tit, pigeons, wrens, wagtail, starling, sparrows as well as resident nesting blackbirds in the ball laurel at the end of the garden. However, in severe Winter weather we put food out in the veg patch, currant and sunflower seeds are always favourites.

We try to keep the grass short ish so the birds can find worms still and the wagtail can chase it's flies, but not too short. We think our mix of flowering plants provides for us to get away with just doing 'no mow may' and be sensible the rest of the year with not scalping the grass.

Our veg patch at the end of the garden is great habitat too, there's berries and currants for autumn food and the compost heap in the shed is full of creatures, we try to always have a cane in any buckets to let creatures escape. Our asparagus by the apple tree is always let go to fern as when it flowers the bees love it and in winter the spiders use it.

We don't use any chemicals in the garden and feed using a seaweed feed. So, that's our garden, we hope you like it as much as we do.

Mair and Ian

Enillydd Yr Ardd Bywyd Gwyllt Fawr 2024

Ym mis Chwefror 2020, dim ond wythnos cyn i'r byd fynd i'r Clo mawr, symudais i mewn i fy nghartref newydd, Cae Glas. Roedd yr ardd yn llanast llwyr, wedi gordyfu, gyda choed mawr, hen, gwrychoedd marw a blêr, mieri, a llwyni llawryf a chelyn a oedd yn wyllt hollol. Trwy glirio'r coed marw neu anaddas, trawsnewidiwyd y gofod yn syth trwy ganiatáu i olau orlifo i mewn. Y gwanwyn canlynol, tyfodd yr eirlysiau'n garped trwchus, a dechreuais hefyd blannu clychau'r gog ger y nant, i ychwanegu at swyn yr ardd.

Roeddwn yn teimlo fel petai'r ardd wedi'i datgysylltu o'r nant i ddechrau, a dyma pam y crëwyd y Gin Bar, un o fy hoff nodweddion ynddi! Roeddwn i eisiau creu lle cyn tawel i fwynhau sŵn y nant a harddwch yr ardd. Ar ôl clirio, cafodd ei therasu gan ddefnyddio planciau o hen goeden gedrwydd, ac roedd yn cynnwys man eistedd. Dilynais gyngor llyfrau Beth Chatto, a dewis planhigion a fyddai'n ffynnu yn y mannau cysgodol ac yn denu gwas y neidr, brogaod a madfallod dŵr.



Winner of The Large Wildlife Garden 2024

In February 2020, just a week before the world went into lockdown, I moved into my new home, Cae Glas. The garden was a wild, overgrown mess, with large, old trees, dead and straggly hedging, brambles, and out-of-control laurel and holly bushes. Clearing away dead or unsuitable trees, instantly transformed the space by allowing light to flood in. The following spring, the snowdrops went wild, creating a beautiful carpet and I also began planting bluebells near the stream, adding to the garden's charm.



The garden initially felt disconnected from the stream, this led to the creation of the Gin Bar, one of my favourite features of the garden! I wanted to create a serene spot to enjoy the sounds of the stream and the beauty of the garden. After clearing, it was terraced it using planks from an old cedar tree, and included a seating area. Reading Beth Chatto's advice, I chose plants that would thrive in the shaded area and attract dragonflies, frogs, and newts.

Erbyn hyn, yn ystod yr haf rydych yn gallu clywed suo'r gwenyn a gweld gwas y neidr uwchben, gyda'r nant yn sisial yn y cefndir. Mae llyffantod yn frith ar y llethrau gwelltog, a dwi wedi gweld madfall hyd yn oed!

Yr her nesaf oedd y “Bank of Doom,” - ardal fawr, serth o dan y tŷ gyda phridd gwael oedd yn brin o faetholion. Defnyddiwyd gweithwyr proffesiynol gyda chloddwyr i glirio'r ardal cyn ychwanegu 10 tunnelli o uwchbridd a thomwellt, a'u gorchuddio â matiau bioddiraddadwy i adael iddyn nhw setlo. Yn ystod y misoedd canlynol, plannais y gwelyau yn raddol, gan gwblhau'r un olaf y gwanwyn hwn.



Porais drwy nifer o lyfrau a gwefannau garddio i wneud yn siŵr bod yr ardd bellach yn cynnwys amrywiaeth eang o lwyni blodeuol, planhigion lluosflwydd, perlysiâu ac addurniadau. Y nod yw darparu ar gyfer yr holl fwystfilod bach, a'r llynedd, roedd y gwelyau blodau yn haid o loŷnnod byw a gwenyn, er bod y glöynnod wedi cael blwyddyn anodd eleni. Mae gan y gwelyau hefyd rwydwaith o dyllau bach lle mae llug a'r llygoden bengrwn yn byw, gan ychwanegu at ecosystem yr ardd.

Now, in Summer you can hear the hum of bees and see dragonflies overhead, accompanied by the gentle babbling of the stream. The grassy slopes are now teeming with frogs, and I even discovered a newt!



The next challenge was the “Bank of Doom,” a large, steeply sloping area below the house with nutrient-depleted soil. Professionals with diggers cleared the area before adding 10 tons of topsoil and mulch, which was covered it with biodegradable matting to let it settle. Over the following months, I gradually planted the beds, completing the final one this spring.

I consulted numerous gardening books & websites to ensure the garden now boasts a wide variety of flowering shrubs, perennials, herbs, and ornamentals. The goal is to cater to all the mini beasties, and last year, the flower beds were swarming with butterflies and bees, although the butterflies have struggled this year. The beds also have a network of little holes where shrews and voles live, adding to the garden's ecosystem.

Eleni, mae bysedd y cŵn a phabi Cymreig wedi hunan-hadu ym mhobman, gan greu arddangosfa syfrdanol. Plennais hefyd dros 15 dalia, sydd, ar ôl brwydr gychwynnol â gwlithod, wedi ffynnu ac wedi'u gorchuddio â gwenyn bob amser. Ar waelod yr ardd, mae pentwr pren mawr wedi dod yn fetropolis chwilod ac yn gartref i wahanol greaduriaid blewog.

Mae'r ardd wastad yn byrlymu â chŵn yr adar, gyda'r fwyalchen, y fronfraith, dryw, robin goch, ji-binc, titw, pibydd y waun, a delor y cnau yn cystadlu am diriogaeth. Ac yn ffodus, mae cnocell y coed a thylluanod lleol hefyd yn ymweld yn rheolaidd. Mae'r porthwyr adar ar y patio yn denu hyd yn oed mwy o weithgaredd ac yn darparu adloniant diddiwedd i'm hanifeiliaid fy hun!

Roeddwn wrth fy modd pan welais ystlum yn dod allan o'r bocs ystlumod, - arwydd clir fod yr ardd bellach yn gynefin addas ar gyfer creaduriaid y nos hefyd.

Llafur cariad ydi datblygu'r ardd i mi. Mae'r daith wedi bod yn un gwerth chweil, a byddaf yn parhau i ymdrechu i greu hafan hyd yn oed yn fwy bywiog a chroesawgar i fywyd gwyllt.

Barbara Murray



This year, foxgloves and Welsh poppies self-seeded everywhere, creating a stunning display. I also introduced over 15 dahlias, which, after an initial battle with slugs, have thrived and are always covered in bees. At the bottom of the garden, a large woodpile has become a bug metropolis and home to various furry creatures.

The garden is always alive with birdsong, with numerous blackbirds, song thrushes, wrens, robins, chaffinches, tits, dunnocks, and nuthatches competing for territory. I luckily also receive regular visits from local woodpeckers and owls. The bird feeders on the patio attract even more activity and provide no end of entertainment for my own beasties!

I am thrilled to have spotted a bat emerging from my bat box, a sign that the garden is now providing a suitable habitat for these nocturnal creatures.

Developing my garden has been a labour of love, but the journey has been incredibly rewarding, and I will continue to strive to create an even more vibrant and welcoming haven for wildlife.

Barbara Murray

Tocio'r Bedw Arian

Rhoddodd Llanbedr DC y dasg o leihau a thocio'r tair Bedwen Arian fawr, hardd sydd yng nghanol y pentref. Er eu bod yn goed gwyh i edrych arnynt, mae angen gofal sylweddol a pharhaus ar y rhywogaeth hon o goedden i gadw eu hiechyd a'u hirhoedledd. Roedd hefyd yn amlwg eu bod yn mynd yn rhy dal a llydan i'w hamgylchedd, gan amharu ar olygfeydd perchnogion tai cyfagos, yn ogystal â changhennau'n hongian dros y ffordd a mannau parcio gerllaw. Mae angen tocio Bedw Arian ar adeg benodol o'r flwyddyn – diwedd yr haf, oherwydd gall rhew niweidio toriadau ffres yn y gaeaf ac yn y gwanwyn/dechrau'r haf maen nhw'n dioddef o 'waedu' trwm o'u sudd wrth iddyn nhw ddeilio. Cafodd y coed eu tocio a'u teneuo'n sympathetig wrth gadw eu siâp naturiol, - y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud â llif llaw fach i sicrhau gorffeniad taclus a bod y coed yn hunan iachau gorau posibl. Bydd y gwaith yn sicrhau bod y coed yn byw'n iach am flynyddoedd i ddod.

Os am wybod mwy am goed, dewch i'n holi ni ar Info@ruthintreecare.co.uk

Silver Birch Pruning

Llanbedr DC tasked Ruthin Tree Care with reducing in size and pruning, three large, beautiful Silver Birch trees in the heart of the village. While they are wonderful trees to observe, this species of tree often requires significant care to preserve their health and longevity. It was also clear they were becoming too tall and wide for their surroundings, interfering with the views of house owners, as well as branches overhanging the road and parking areas nearby. Silver Birch trees require pruning at a specific time of year - late summer, as frost can damage fresh cuts in the wintertime and in Spring /early Summer they suffer from heavy 'bleeding' of their sap as they come into leaf. The trees were sympathetically pruned and thinned whilst retaining their natural shape. The majority of the pruning was done by small hand saw to ensure a neat finish with optimal tree heal. The work done will ensure the trees live healthily for years to come.

For any tree related enquires we are available at Info@ruthintreecare.co.uk

Cyfarfod Garddio Sy'n Gyfeillgar i Fywyd Gwylt

Am 7.30 nos Wener y 17 Ionawr bydd cyfarfod yn Eglwys San Pedr ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd camau pellach tuag at annog bywyd gwylt i ffynnu yn ein gerddi a'n tirwedd.

Glywsoch chi bod rhaid i'r titw tomos las ddod a thua 1,000 o lindys y dydd i fwydo nythiad o gywion a bod poblogaeth ein pryfed yn prinhau'n sylweddol?

Gyda digon o ddiddordeb yn y pwnc, efallai y gall hwn ddod yn grŵp sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r ymateb brwd i'r gystadleuaeth garddio bywyd gwylt yn arwydd clir bod gan ein cymuned ddiddordeb mewn annog bywyd gwylt. Mae cyfoeth o brofiad a gwybodaeth yn y pentref a hefyd yr ardal ehangach a gallwn edrych ymlaen at ddysgu oddi wrth ein gilydd a rhannu syniadau ac adnoddau.

Bydd te, bisgedi a seddi cyfforddus ar gael yn y cyfarfod. Plŷ dewch draw.

Wildlife Friendly Gardening Meeting

On Friday the 17th of January at 7.30pm there will be a meeting at St Peter's Church for those interested in taking further action towards encouraging wildlife to thrive in our gardens and landscape.

You might well have heard that adult blue tits need to provide around 1,000 caterpillars a day to feed a nest of growing young and that our insects are in steep decline?

Perhaps with enough interest in the subject this can become a regular group. In view of the enthusiastic response to the wildlife garden competition, there is a clear indication that our community has an interest in wildlife and its encouragement. There is a wealth of experience and knowledge in the village and also the wider area nearby and we can look forward to learning from each other and sharing ideas and resources.

Tea, biscuits and a comfy seat will be available at the meeting. Please do come along, everyone is welcome.



Hanes Llanbedr DC : John Jesse 1801 – 1863

Un o gyn berchnogion Plas Llanbedr oedd John Jesse. Mae wedi'i gladdu ym mynwent Hen Eglwys Llanbedr.

Ychydig o wybodaeth sydd gennym am fywyd John Jesse cyn iddo ddod i fyw i'r Plas. Gwyddom iddo fynd i Ysgol Ramadeg Manceinion gyda'i frawd Joseph. Bu hefyd yn gweithio yn y Manchester Infirmary lle gwnaeth ei hyfforddiant meddygol cynnar i ddod yn llawfeddyg.

Bu farw Joseph Ablett, sef perchennog y Plas o 1804 ymlaen, ym 1848, ac nid oedd ganddo blant. Dyma pryd etifeddodd John Jesse y Plas. Does wybod pa bryd y daeth John Jesse yma i fyw, ond cafodd ei urddo'n Uchel Siryf Sir Ddinbych ym 1856.

Ym 1840 roedd yn dal i fyw ym Manceinion pan briododd Sarah Garrat. Bu hi farw yn 1845 ar enedigaeth eu mab Francis Ablett Jesse. Ym 1848 priododd John Jesse ag Eliza Milne a chawsant dri o blant: merch o'r enw Sara Margaret Jesse ym 1849, mab o'r enw John Fairfax Jesse ym 1851 a merch arall, sef Eliza Stephenson Jesse ym 1855.

Bu'n cadw dyddiadur o fis Awst 1859 hyd at fis Medi 1863.

Fel un o foneddigion a chymwynaswyr yr ardal bu'n ymwneud â llawer o brosiectau lleol gan gynnwys y rheilffordd o Ddinbych i Gorwen. Yn wir yr oedd yn bresennol pan dorrwyd y

Llanbedr DC History : John Jesse 1801 – 1863

John Jesse was a previous owner of Llanbedr Hall whose gravestone is located in the graveyard of the Old St. Peter's Church.

We have little information about John Jesse's life before he came to live in the Hall. We do know that he went to Manchester Grammar School with his brother Joseph. Also he worked at the Manchester Infirmary doing his early medical training to become a surgeon. Joseph Ablett who had owned Llanbedr Hall from 1804 died in 1848 with no children. This was when John Jesse inherited the Hall. We do not know when John Jesse actually moved to live in the Hall. But he was appointed as the High Sheriff of Denbighshire in 1856.

In 1840 he still living in Manchester when he married Sarah Garrat. She died in 1845 when their son Francis Ablett Jesse was born. In 1848 John Jesse married Eliza Milne with whom he had three children. In 1849 a daughter Sara Margaret Jesse. Then in 1851 a son John Fairfax Jesse and in 1855 their daughter Eliza Stephenson Jesse.

He did keep a day to day diary from August 1859 to September 1863.

As one of the local gentry and benefactors he was involved in many local projects including the Denbigh to Corwen railway line. In fact he attended the cutting of the first sod by

dywarchen gyntaf gan Miss Florence West ar 4 Medi 1860. Agorwyd y rheilffordd o Ruthun i Ddinbych ar Fawrth 1af 1862. Ym Mehefin 1863 hefyd rhoddodd £5 tuag at adeiladu'r bont droed a godwyd dros y rheilffordd yn Rhuthun.

Roedd Jesse hefyd yn ymwneud yn fawr â hen eglwys leol San Pedr. Mynychai'r eglwys yn rheolaidd gan gofnodi bob tro fod niferoedd y gynulleidfa naill ai'n "uwch neu'n is". Ni wn beth yw ystyr hyn, ond efallai fod gan y rhai "uwch" seddau neilltuedig a'r rhai "is" yn ymgynnull yn rhan isaf yr eglwys.

Roedd yn poeni fod adeilad yr hen eglwys yn dirywio a bod y fynwent yn orlawn. Ym Medi 1860 cofnododd fod y beddau yn fas ac esgyrn yn cael eu dinoethi yn ystod claddedigaethau. Cofnododd na fyddai byth yn rhoi modfedd o dir i ehangu'r fynwent. Nid oes dyddiad wedi ei gofnodi yn ei ddyddiadur, ond beth amser yn ddiweddarach cynigiodd godi eglwys newydd i'r plwyf.



Emma Cowens painting ca 1885
Darlun gan Emma Cowens tua 1885

Miss Florence West on 4th September 1860. The railway line from Ruthin to Denbigh was opened on 1st march 1862. In June 1863 he also donated £5 towards the construction of the footbridge that was built over the railway line in Ruthin.

Jesse was also very involved in the local Old St. Peter's church. He regularly attended church and recorded each time the numbers in the congregation either being "above or below". I do not know what this means, but it may be that the "above" had reserved pews and "below" congregated in a lower area of the church.



Darlun gan Fred Walmesley tua 1894
Fred Walmesley painting ca 1894

He was concerned about the deterioration of the old church building and the graveyard becoming overflowed with graves. In September 1860 he recorded about the graves being shallow and bones being exposed during burials. He recorded that he would never give an inch of land to enlarge the graveyard. There is no date recorded in his diary but some time later he did offer to build a new church for the parish.

Yn Awst 1862 cofnododd iddo fynd a'r esgob draw i weld safle'r eglwys newydd. Ar 4 Mawrth 1863 cymeradwywyd y cynlluniau ac arwyddwyd y cytundeb i'w hadeiladu ar 29 Ebrill 1863.

Cofnododd Jesse fod Tŵr Moel Famau wedi dymchwel mewn storm ar 28 Hydref 1862 yn ystod y nos.


Roedd iechyd John Jesse yn gwaethgu'n arw yn ystod y cyfnod hwn. Ar 25 Ionawr 1863 cofnododd yn ei ddyddiadur, "Hyderaf y caf fy arbed am ddigon o amser i weld yr eglwys newydd".

Yn ddiweddarach ym mis Ebrill ysgrifennodd "Mae'r byd hwn yn mynd yn ei flaen hebdo mi, ysywaeth. Boed i mi gael fy anghofio ar y ddaear ond fy nghofio a'm derbyn yn y Nefoedd".

Ar Fawrth 1863 gosodwyd carreg sylfaen yr eglwys newydd gan ferch John Jesse, Sara Margaret Jesse.



Bedd John Jesse
The grave of John Jesse



Old St Peter's Church East window ca 1945
Y ffenest ddwyreiniol tua 1945

In August 1862 he recorded that he took the bishop to show him the site of the new church. On 4th March 1863 plans were approved and the contract to build it was signed on 29th April 1863.

Jesse recorded that on the night of 28th October 1862 the Tower on Moel Famau collapsed in a storm.

During this time John Jesse's health was deteriorating badly. On 25th January 1863 he recorded in his diary, "I trust I shall be spared for some time to see the new church". Later in April he wrote "Alas all of this world with me is passing away, let me be forgot on earth but recollect me in heaven, may I be accepted there".

On March 1863 the foundation stone for the new church was laid by John Jesse's daughter Sara Margaret Jesse.

Ar 23 Medi 1863 bu farw John Jesse yn 61 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent Hen Eglwys San Pedr. Yn anffodus ni chafodd fyw i weld cwblhau'r eglwys newydd.

Dim ond tri o blant John Jesse sydd wedi'u claddu yn y fynwent newydd. Y rhain yw Francis Ablett Jesse, 20 oed, John Fairfax Jesse, 60 oed a Sara Margaret Jesse 80 oed. Mae eu beddau o dan y goeden gelyn ar y chwith a gyferbyn wrth i chi fynd allan drwy ddrws newydd yr eglwys.

Guy Alford

On 23rd September 1863 John Jesse died at the age of 61 years and was buried in the graveyard at the Old St. Peter's Church. Unfortunately he did not live to see the completion of the new church.

Only three of John Jesse's children are buried in the new churchyard. They are Francis Ablett Jesse, aged 20, John Fairfax Jesse, aged 60 and Sara Margaret Jesse aged 80. Their graves are under the holly tree to the left and opposite as you leave the new church door.

Written by Guy Alford



Braslun o Blas Llanbedr Hall tua 1853 - 1863

A sketch of Llanbedr Hall ca 1853 - 1863

Digwyddiadau i Ddod

Cyfarfod cychwynnol 'Grŵp garddio bywyd gwyllt': 17 Ionawr am 7.30 yh.

Cyfarfod yn eglwys newydd San Pedr. Croeso cynnes i bawb.

Cinio Dydd Gŵyl Dewi: 1af Mawrth – amser i'w gadarnhau.

Cinio blynyddol Dydd Gŵyl Dewi.

Diwrnod Hwyl i'r Teulu 'Thema'r Jyngl': 31 Mai rhwng 11 y bore a 2 y pnawn.

I'w gynnal yn Y Griffin, - adloniant i blant ar thema'r Jyngl.

Diwrnod Hwyl i'r Teulu 'Thema'r Traeth': 23 Awst rhwng 11 y bore a 2 y pnawn.

I'w gynnal yn Y Griffin, - adloniant i blant ar thema parti ar y traeth.



Upcoming Events

Initial meeting 'Wildlife gardening group': 17th January at 7.30pm.

Meeting at new St Peters church and everyone is welcome.



St Davids Day lunch: 1st March – time to be confirmed.

The annual St Davids day lunch.

Family Fun Day 'Jungle themed': 31st May between 11am and 2pm.

Held at The Griffin, there will be Jungle themed children's entertainment.

Family Fun Day 'Beach themed': 23rd August between 11am and 2pm.

Held at The Griffin, there will be Beach party themed children's entertainment.